# RHAGOLWG

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 1 Mawrth 2005]**

**Dydd Mawrth 8 Mawrth a dydd Mercher 9 Mawrth 2005**

**Dydd Mawrth 15 Mawrth a dydd Mercher 16 Mawrth 2005**

***Toriad 21 Mawrth - 8 Ebrill 2005***

**Dydd Mawrth 12 Ebrill a dydd Mercher 13 Ebrill 2005**

## Dydd Mawrth 8 Mawrth 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud):**

- **Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005**

  Mae Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 yn dod â holl ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac eithrio adran 54 (1) i (5)) na chychwynwyd drwy Gydsyniad Brenhinol na thrwy Orchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 1) 2005, i rym o 1 Ebrill 2005. Cymeradwywyd y Gorchymyn Cychwyn cyntaf gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 18 Ionawr 2005 a daeth i rym ar 31 Ionawr.

- **Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005**

  Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailwneud, gyda newidiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy’n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion

Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004 am resymau eglurder ac yn cyflwyno diwygiadau i newidiadau diweddar i ofynion mewnforio'r UE.

- **Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r rhestr o ddiheintyddion cymeradwy drwy ddiwygio Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion Cymeradwy) 1978 (fel y'i diwygiwyd ddiwethaf yn 2001), a hynny er mwyn sicrhau eglurder. Maent yn gweithredu'r newidiadau diweddar a awgrymwyd gan y diwydiant i'r rhestr diheintyddion**.** Mae'r diheintyddion cymeradwy i'w defnyddio i reoli clefydau penodol mewn anifeiliaid, megis Clwy'r Traed a'r Genau, Clefyd Pothellog y Moch, TB mewn Gwartheg a chlefydau mewn dofednod, megis Ffliw'r Adar.

- **Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2005**

Mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn gwneud cynnal arolygon o ieir dodwy yn orfodol. Maent yn rhoi pwerau mynediad a phwerau cysylltiedig er mwyn cynnal arolygiad i ganfod lefelau o salmonela milheintiol (bacteriwm, firws, parasitiaid neu gyfryngau trosglwyddadwy) mewn heidiau o ieir dodwy.

- **Rheoliadau'r Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005**

Bwriad y Rheoliadau hyn yw tynhau telerau aelodaeth a rhoi mwy o hyblygrwydd, yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i'r Cynghorau Iechyd Cymuned fabwysiadu gweithdrefn gwyno.

- **Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, yn cydgrynhoi ac yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2002 (OS 2002/897 (W.103)). Nid ydynt yn cyflwyno unrhyw ddarpariaethau sy'n benodol i Gymru am fod y system cwotâu llaeth yn gynllun sy'n weithredol ledled y DU. Mae'r Rheoliadau'n gweithredu newidiadau cywirol penodol y mae'n ofynnol ei gwneud er mwyn gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd, yn benodol y dull o gyfrifo'r ardoll braster menyn a phennu terfynau amser ar gyfer derbyn dogfennau, yn hytrach na'u hanfon. Byddant yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gadw cofnod o systemau porthi; a hepgor llaeth sy'n cael ei ddifetha oddi ar y fferm wrth gyfrifo'r ardoll. Byddant

yn darparu i ddeiliaid cwota fynd â chwota y maent wedi'i brynu yn eu hawl eu hunain gyda hwy ar ddiwedd eu tenantiaeth**.**

***Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol ynghyd â phleidleisiau ar wahân (45 munud)*:**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005**

  Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol godi ffi ar breswylwyr am lety preswyl, os darperir ef yn uniongyrchol neu os trefnir ef â chartref annibynnol, gyda'r nod o adfer cymaint o'r costau ag sy'n bosibl. Nodir y broses o asesu gallu unigolyn i dalu am lety yn Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i adfer y terfynau cyfalaf ar gyfer cynnal profion modd i'w gwerth gwirioneddol yn 1996 a pharhau i'w harolygu. Yn awr, caiff terfynau eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau fwy neu lai yn unol â chwyddiant. Effaith fwriedig diwygio'r Rheoliadau hyn yw cynyddu'r terfynau cyfalaf ar gyfer profion modd yn unol â chwyddiant ar gyfer y terfyn uchaf o £20,500 i £21,000 ac o swm sylweddol uwch o 9.2% ar gyfer y terfyn isaf o £13,500 i £14,750. Maent hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau i fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm o fis Ebrill 2005, sy'n gysylltiedig âr Rheoliadau hyn.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005**

  Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol godi ffi ar breswylwyr am lety preswyl, os darperir ef yn uniongyrchol neu os trefnir ef â chartref annibynnol, gyda'r nod o adfer cymaint o'r costau ag sy'n bosibl. Nodir y broses o asesu gallu unigolyn i dalu am lety yn Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992. Effaith y diwygiad i Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) yw cynyddu'r swm wythnosol, y bydd awdurdodau lleol yn tybio y bydd ei angen ar breswylwyr sydd mewn gofal preswyl neu ofal nyrsio ar gyfer eu gofynion personol, o £18.40 i £19.10 o 2005-06.

***Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol ynghyd â phleidleisiau ar wahân (30 munud)*:**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005**

Mae’r Gorchymyn hwn yn nodi 22 o ddangosyddion perfformiad statudol y bydd yn ofynnol i awdurdodau unedol eu casglu o fis Ebrill 2005 a’u cyhoeddi yn eu Cynlluniau Gwella.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005**

  Mae’r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002 sy’n nodi’r 89 o ddangosyddion perfformiad y bu’n ofynnol i awdurdodau unedol Cymru eu casglu o 2002 a’u cyhoeddi yn eu Cynlluniau Gwella.

- **Motion to approve The Radioactive Substances (National security) (Wales) Directions 2005 under Standing order 29 (15 munud )**

- **Cynnig i gymeradwyo’r Gyllideb Atodol (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo trosglwyddo Prif Grwp Gwariant ar ddiwedd y flwyddyn i Brif Grwp Gwariant arall (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 6 (Cymru) 2004: Refeniw Ysgol Ychwanegol (15 munud)**

  Bydd yr Adroddiad Grant Arbennig hwn yn dosbarthu cyllid refeniw ychwanegol i'r holl Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru at ddiben gwella safonau ysgolion, yn arbennig drwy helpu ysgolion cynradd i leihau neu gynnal y lleihad o ran maint dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2; cefnogi ysgolion sy'n perfformio'n wael; a darparu cefnogaeth i benaethiaid ysgolion sydd ag ymrwymiadau addysgu sylweddol.

## Dydd Mercher 9 Mawrth 2005

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty^ (5 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Comisiynydd Plant (30 munud)**

- **Motion to approve under Standing Order 25 section 3 The Income Generation Powers of Special health Authorities Directions 2005 (5 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau i'r Prif Weinidog o dan Ddeddf Plant 2004 (20 munud)**

- **Motion to approve changes to Standing Order 3 (5 munud)**

- **Dadl am Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Berthynas rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol (60 munud)**

  Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ym mis Mehefin 2003 *(Adroddiad Wanless),* penderfynodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal adolygiad polisi ar y berthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Nodau'r adolygiad oedd gwerthuso effeitiolrwydd gweithio ar y cyd a chydweithredu rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; nodi arferion da a chynnig argymhellion ar gyfer gwella gweithio ar y cyd a chydweithredu rhwng y prif asiantaethau.

- **Motion(s) to approve determinations in respect of the Senior Salaries Review Board Recommendations (10 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 15 Mawrth 2005

- **Motion to elect a Planning Decision Committee ( 1 munud)**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 (OS 1992.662); mae hyn yn rheoleiddio'r amodau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu fframwaith Contract Fferyllol newydd sy'n allweddol i ddatblygu mentrau newydd mewn fferylliaeth gymunedol. Rhagwelir y bydd fferyllfeydd cymunedol

yn darparu mwy o amrywiaeth o ran gwasanaethau ac y byddant yn cael eu talu am ansawdd ac nid am faint o bresgripsiynau y maent yn eu rhagnodi.

Bydd y contract newydd yn galluogi fferyllfeydd cymunedol i gyfrannu i ddarpariaeth gwasanaeth y GIG i gleifion, yn darparu amgylchedd gwaith mwy boddhaus ac ysgogol i'r proffesiwn ac yn lleihau'r baich sydd ar feddygon teulu ar hyn o bryd.

- **Slot reserved for subordinate legislation considered by the Business Committee at its meeting on 1 March 2005 (140 munud)**

_

## Dydd Mercher 16 Mawrth 2005

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**
- **Dadl ar Clywch (60 munud)**
- **Dadl ar Orchymyn a Fframwaith Genedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub (60 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**

_

## Dydd Mawrth 12 Mawrth 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**
- **Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i awdurdodau gorfodi (awdurdodau lleol) i orfodi gofynion masnach y Gymuned

Ewropeaidd ac i ystyried ehangu'r UE yn ddiweddar. Maent yn gweithredu darpariaethau'r UE sy'n ymwneud â masnach rhwng Cymunedau mewn anifeiliaid byw a deunydd genetig (semen, ova ac embryonau). Maent hefyd yn gweithredu darpariaethau'r UE sy'n ymwneud â mewnforio anifeiliaid byw o wledydd nad ydynt yn yr UE. Maent yn diddymu ac yn ailddeddfu Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000.

- **Slot wedi'i neilltuo ar gyfer is-ddeddfwriaeth (45 munud)**
- **Dadl a enwebwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig (45 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Reolau Sefydlog sy'n ymwneud â Gweithdrefnau Safonol y Cynulliad (5 munud)**
- **Cynnig i benodi'r Cynghorydd Annibynnol newydd ar Safonau o dan Reol Sefydlog 16.3 (10 munud)**

## Dydd Mercher 13 Ebrill 2005

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Hutt, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y nodir yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogol (30 munud)**
- **Dadl ar gynigion Deddfwriaeth Sylfaenol (90 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**